

# Tystysgrif Lefel 2 Focus Awards mewn Cefnogi Dysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (RQF)

601/8047/X

Focus Awards, Silicon House, Farfield Park, Manvers, Rotherham, S63 5DB

# Crynodeb o'r Cymhwyster

## Gwybodaeth Allweddol

| Lefel | Sector | Math o Gymhwyster |
|---|---|---|
| 2 | Chwaraeon a hamdden | Galwedigaethol |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster** | **Gwerth y Credydau** | **Oriau Dysgu dan Arweiniad** |
| 180 | 18 | 180 |
| **Statws** | **Dulliau Asesu** | **Isafswm Oedran** |
| Ar gael i ddysgwyr | Portffolio tystiolaeth | 16 |



# Cynnwys

Crynodeb o'r Cymhwyster ... 2
Cynnwys ... 3
Diben y Cymhwyster: ... 4
Ystod Oedran ... 4
Cwmpas Daearyddol ... 4
Gofynion Mynediad i Ddysgwyr ... 4
Addasiadau Rhesymol ... 4
Dulliau Asesu ... 5
Llwybrau Cynnydd ... 5
Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol ... 5
Strwythur y Cymhwyster ... 6

# Tystysgrif Lefel 2 Focus Awards mewn Cefnogi Dysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (RQF)

Rhif Cyfeirnod y Cymhwyster: 601/8047/X
Oriau Dysgu dan Arweiniad: 180
Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 180
Credydau: 18



## Diben y Cymhwyster:

Nod Tystysgrif Lefel 2 Focus Awards mewn Cefnogi Dysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (RQF) yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o egwyddorion addysgu addysg gorfforol mewn ysgolion a deall y ddeddfwriaeth gysylltiedig.



## Ystod Oedran

Ceir mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 16 oed i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

## Cwmpas Daearyddol

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Gofynion Mynediad i Ddysgwyr

Dylai dysgwyr fod yn gymwys mewn llythrennedd a rhifedd i helpu gydag elfennau cyfathrebu. Mae hyn yn ôl disgresiwn y ganolfan gan y gallent benderfynu defnyddio dulliau profi diagnostig i ganfod sut y gallant gefnogi dysgwyr.

## Addasiadau Rhesymol

Cyfeiriwch at 'Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig' Focus Awards. Gellir lawrlwytho copi o wefan Focus Awards yn yr url canlynol:

https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf

## Dulliau Asesu

Asesir y cymhwyster hwn yn fewnol. Rhaid i bob dysgwr greu portffolio tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi cyflawni’r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â phob uned.

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Arsylwadau’r asesydd
- Tystiolaeth tystion
- Cynnyrch dysgwr
- Taflenni gwaith
- Aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- Cofnod o gwestiynau llafar ac ysgrifenedig
- Adroddiadau dysgwyr a chymheiriaid
- Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL)

## Llwybrau Cynnydd

Gall dysgwyr sydd am symud ymlaen o’r cymhwyster hwn ddatblygu eu sgiliau ymhellach drwy'r canlynol:

- Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Cefnogi’r Ddarpariaeth o Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (RQF)
- Diploma NVQ Lefel 3 Focus Awards mewn Cefnogi’r Ddarpariaeth o Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (RQF)

## Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol

- https://focusawards.org.uk/supportingmaterials
- https://ofqual.gov.uk



## Strwythur y Cymhwyster

Er mwyn llwyddo i ennill Tystysgrif Lefel 2 Focus Awards mewn Cefnogi Dysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (RQF), rhaid i ddysgwyr gwblhau pob uned orfodol i gyflawni cyfanswm o 18 credyd.

### Unedau Gorfodol

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Paratoi ar gyfer gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | A/502/8494 | 2 | 2 | 20 |
| Egwyddorion addysgu Addysg Gorfforol a hyfforddi Chwaraeon mewn Ysgolion | D/502/8455 | 2 | 2 | 19 |
| Arwain gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | F/502/8496 | 2 | 2 | 14 |
| Cwblhau ac adolygu gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | J/502/8496 | 2 | 2 | 14 |
| Egwyddorion ymarfer diogel mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | K/502/8460 | 2 | 2 | 18 |
| Deall Deddfwriaeth Allweddol sy'n ymwneud ag Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | L/502/8449 | 2 | 2 | 18 |
| Egwyddorion Cynhwysiant mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | M/502/8539 | 2 | 2 | 17 |
| Egwyddorion Datblygiad Plant trwy Symud | T/502/8462 | 2 | 2 | 18 |
| Hyrwyddo Iechyd a Lles Gydol Oes | J/502/8479 | 2 | 2 | 20 |

# Unedau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Paratoi ar gyfer gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | | |
| Rhif yr Uned: | A/502/8494 | | |
| Lefel: | 2 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 20 | | |
| Credydau: | 2 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddysgwyr er mwyn paratoi ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod sut i baratoi ar gyfer gweithgareddau, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol | 1.1 | Disgrifio pwysigrwydd cynllunio a pharatoi gofalus a thrylwyr ar gyfer gweithgareddau |
| | | 1.2 | Nodi'r gofynion ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio |
| | | 1.3 | Disgrifio sut mae'r gweithgareddau'n ymwneud â'r sesiwn gyffredinol |
| | | 1.4 | Disgrifio sut mae'r sesiwn yn ymwneud â nodau cyffredinol y rhaglen |
| | | 1.5 | Datgan sut i nodi anghenion, cymhellion a photensial y dysgwyr |
| | | 1.6 | Disgrifio'r mathau o anghenion arbennig y gallai fod gan ddysgwyr |
| | | 1.7 | Disgrifio sut i addasu ei gynlluniau ei hun, addasu ei hun, offer a chyfleusterau i ddiwallu anghenion arbennig y gallai fod gan ddysgwyr |
| 2 | Gwybod sut i gynllunio gweithgareddau, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol | 2.1 | Amlinellu beth ddylai cynllun gweithgaredd ei gynnwys |
| | | 2.2 | Disgrifio pwysigrwydd trin gwybodaeth am ddysgwyr yn gyfrinachol a beth mae hyn yn ei olygu |
| | | 2.3 | Disgrifio sut i ddatblygu a gwirio deilliannau, amcanion, dilyniannau ac amseriadau ar gyfer gweithgareddau |
| | | 2.4 | Amlinellu sut i gael gwybod am yr offer a'r cyfleusterau a fydd ar gael ar gyfer y gweithgareddau |
| | | 2.5 | Datgan y mathau o amgylchiadau a allai newid a sut i gynllunio ar gyfer y rhain |
| | | 2.6 | Amlinellu pam mae’n bwysig cael cymeradwyaeth y person sy'n gyfrifol am y sesiwn/rhaglen gyffredinol |
| 3 | Gallu cynllunio gweithgareddau, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg | 3.1 | Casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio'r gweithgareddau |
| | | 3.2 | Bod â chynlluniau gweithgareddau sy'n bodloni nodau'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gorfforol | | sesiwn/rhaglen gyffredinol ac anghenion a photensial dysgwyr unigol |
| | | 3.3 | Sicrhau bod gan y cynlluniau ddeilliannau, amcanion, dilyniannau ac amseriadau realistig |
| | | 3.4 | Sicrhau bod y cynlluniau'n bodloni gofynion iechyd a diogelwch |
| | | 3.5 | Addasu'r cynlluniau yn ôl yr offer, y cyfleusterau a'r amser sydd ar gael |
| | | 3.6 | Nodi unrhyw beth a allai newid cyn y gweithgareddau a chynllunio sut i ymdrin â'r rhain |
| | | 3.7 | Cael cymeradwyaeth ar gyfer y cynlluniau gan y person sy'n gyfrifol am y sesiwn/rhaglen gyffredinol |

| Teitl yr Uned: | Egwyddorion addysgu Addysg Gorfforol a hyfforddi Chwaraeon mewn Ysgolion | | |
|---|---|---|---|
| Rhif yr Uned: | D/502/8455 | | |
| Lefel: | 2 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 19 | | |
| Credydau: | 2 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr o egwyddorion addysgu addysg gorfforol a hyfforddi chwaraeon mewn ysgolion | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall rolau a chyfrifoldebau athro AG a hyfforddwr | 1.1 | Diffinio rôl athro a rôl hyfforddwr |
| | | 1.2 | Arddangos cyfrifoldebau athro a chyfrifoldebau hyfforddwr |
| 2 | Deall y broses addysgu a hyfforddi | 2.1 | Disgrifio gwahanol gamau'r broses addysgu a hyfforddi |
| | | 2.2 | Dangos sut i weithredu'r broses addysgu a hyfforddi |
| 3 | Deall pwysigrwydd hunanystyried | 3.1 | Disgrifio pwysigrwydd hunanystyried |
| | | 3.2 | Disgrifio'r mathau o wybodaeth y gellid eu defnyddio i fesur ansawdd y profiad addysgu a dysgu a chynnydd disgyblion |
| | | 3.3 | Disgrifio sut i werthuso addysgu a hyfforddi |
| | | 3.4 | Nodi dulliau ar gyfer cynllunio camau personol |
| 4 | Deall nodweddion allweddol cyfathrebu | 4.1 | Amlinellu'r broses o nodi arddulliau dysgu a ffefrir gan ddysgwyr |
| | | 4.2 | Diffinio prif ddulliau cyfathrebu |
| | | 4.3 | Disgrifio strategaethau addysgu a dysgu |
| | | 4.4 | Bod â dealltwriaeth o sut y gall yr athro/hyfforddwr gefnogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Arwain Addysg Gorfforol a Gweithgareddau Chwaraeon mewn Ysgolion | | |
| Rhif yr Uned: | F/502/8495 | | |
| Lefel: | 2 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 14 | | |
| Credydau: | 2 | | |
| **Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr i arwain gweithgareddau addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion | | | |
| **Deilliant Dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu**<br>**Gall y dysgwr:** | |
| 1 | Gallu paratoi dysgwyr ar gyfer gweithgareddau, dan oruchwyliaeth, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol | 1.1 | Cwrdd â'r dysgwyr ar amser |
| | | 1.2 | Helpu’r dysgwyr i deimlo'n gartrefol ac wedi ymlacio |
| | | 1.3 | Dilyn gweithdrefnau ei sefydliad ei hun ar gyfer gwirio presenoldeb |
| | | 1.4 | Sicrhau bod dillad ac offer y dysgwyr yn ddiogel ac yn briodol |
| | | 1.5 | Trefnu’r dysgwyr er mwyn cyfathrebu â nhw |
| | | 1.5 | Esbonio deilliannau ac amcanion y gweithgareddau a sut maent yn cyfrannu at y sesiwn Addysg Gorfforol gyffredinol |
| | | 1.7 | Canfod profiad blaenorol y dysgwyr |
| | | 1.8 | Sicrhau bod y dysgwyr yn barod ar gyfer y gweithgareddau |
| 2 | Gallu cyflwyno'r dysgwyr i weithgareddau, dan oruchwyliaeth, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol | 2.1 | Esbonio'r pwyntiau allweddol a pham eu bod yn bwysig |
| | | 2.2 | Cefnogi amgylchedd dysgu cadarnhaol lle gall dysgwyr ofyn cwestiynau |
| | | 2.3 | Ymateb i gwestiynau'r dysgwyr yn ddefnyddiol ac yn glir |
| | | 2.4 | Gwirio bod y dysgwyr yn deall pwyntiau allweddol |
| | | 2.5 | Ysgogi'r dysgwyr |
| 3 | Gallu arwain gweithgareddau, dan oruchwyliaeth, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol | 3.1 | Cefnogi gweithdrefnau i sicrhau bod ymddygiad y dysgwyr yn cynnal amgylchedd dysgu priodol |
| | | 3.2 | Dilyn gweithdrefnau a gynlluniwyd ar gyfer iechyd, diogelwch a pharch tuag at yr amgylchedd |
| | | 3.3 | Datblygu'r gweithgareddau ar gyflymder sy'n addas i'r dysgwyr ar gyfer cyflawni eu deilliannau a'u hamcanion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3.4 | Asesu cynnydd dysgwyr a rhoi adborth amserol a phriodol |
| | | 3.5 | Rhoi esboniadau ac arddangosiadau pellach i'r dysgwyr pan fo angen |
| | | 3.6 | Annog y dysgwyr i ddweud sut maen nhw'n teimlo ynghylch y gweithgareddau, ac ymateb yn briodol |
| | | 3.7 | Amrywio ei gynllun gweithgaredd ei hun i ddiwallu unrhyw anghenion a chyfleoedd newydd |
| | | 3.8 | Nodi a rheoli unrhyw risgiau newydd pan fyddant yn codi |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cwblhau ac adolygu gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion |
| Rhif yr Uned: | J/502/8496 |
| Lefel: | 2 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 14 |
| Credydau: | 2 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr ar gyfer cwblhau ac adolygu gweithgareddau addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion

| **Deilliant Dysgu** | **Bydd y dysgwr yn:** | **Maen Prawf Asesu** | **Gall y dysgwr:** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gallu cwblhau gweithgareddau, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol | 1.1 | Rheoli ei amser ei hun i orffen y gweithgaredd yn effeithiol |
| | | 1.2 | Cwblhau'r gweithgareddau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi'n briodol ar gyfer y gweithgaredd/sesiwn nesaf |
| | | 1.3 | Annog a chefnogi dysgwyr i fod yn gyfrifol am roi'r offer heibio |
| | | 1.4 | Annog y dysgwyr i gymryd rhan yn y gweithgaredd yn y dyfodol a'u cyfeirio at gyfleoedd pellach |
| | | 1.5 | Sicrhau bod y dysgwyr yn gadael y gweithgaredd mewn modd diogel a threfnus |
| | | 1.6 | Dilyn gweithdrefnau ei sefydliad ei hun ar gyfer cofnodi'r gweithgaredd ac unrhyw ddigwyddiadau |
| 2 | Gallu adolygu gweithgareddau, sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol | 2.1 | Dewis amser a lle priodol ar gyfer yr adolygiad |
| | | 2.2 | Helpu pob dysgwr i gymryd rhan yn yr adolygiad |
| | | 2.3 | Sicrhau bod yr adolygiad yn ystyried profiadau'r dysgwyr yn ystod y gweithgaredd |
| | | 2.4 | Helpu'r dysgwyr i nodi, a bod yn gadarnhaol ynghylch yr hyn y maent wedi'i gyflawni |
| | | 2.5 | Archwilio gyda'r dysgwyr sut y gellir cymhwyso dysgu yn y dyfodol |
| | | 2.6 | Crynhoi gyda'r dysgwyr pa mor dda y cyflawnodd y gweithgaredd ei ddeilliannau/amcanion a diwallu eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hanghenion a'u disgwyliadau |
| | | 2.7 | Trafod deilliannau'r adolygiad gyda'r person sy'n gyfrifol am y sesiwn/rhaglen gyffredinol a chytuno ar gamau gweithredu yn y dyfodol |
| 3 | Gallu myfyrio ar weithgareddau sy'n cyfrannu at sesiynau/rhaglenni Addysg Gorfforol, a'u gwerthuso | 3.1 | Adolygu'r deilliannau a'r amcanion ar gyfer y gweithgareddau a ddarparwyd |
| | | 3.2 | Myfyrio ar bob agwedd ar y gweithgareddau a ddarparwyd:<br>• Cynllunio<br>• Paratoi<br>• Arwain a rheoli'r grŵp<br>• Perthnasoedd |
| | | 3.3 | Myfyrio ar yr adborth a gafwyd gan ddysgwyr ac eraill |
| | | 3.4 | Nodi'r hyn a aeth yn dda a beth y gellid ei wella |
| | | 3.5 | Trafod ac adolygu meysydd i'w datblygu ymhellach gyda'r person sy'n gyfrifol am y sesiwn/rhaglen gyffredinol |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Egwyddorion ymarfer diogel mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion |
| Rhif yr Uned: | K/502/8460 |
| Lefel: | 2 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 18 |
| Credydau: | 2 |

**Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr ynghylch egwyddorion ymarfer diogel mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion

| **Deilliant Dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu**<br>**Gall y dysgwr:** | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall y gofynion a'r prosesau ar gyfer sefydlu amgylchedd diogel mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion | 1.1 | Disgrifio'r egwyddorion cyfreithiol a'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud ag ymarfer diogel mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion |
| | | 1.2 | Dangos sut i ddilyn y broses asesu risg |
| 2 | Deall sut i gynnal amgylchedd dysgu ac addysgu diogel | 2.1 | Disgrifio nodweddion archwiliad diogelwch nodweddiadol cyn cynnal gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion |
| | | 2.2 | Amlinellu prif reolau/rheoliadau'r gamp/gweithgaredd sy'n briodol i lefel y dysgwr |
| | | 2.3 | Disgrifio cyfrifoldebau dyletswydd gofal athro cymorth/hyfforddwr ar gyfer dysgwyr |
| | | 2.4 | Esbonio pwrpas Codau Ymddygiad a sut maent yn effeithio ar addysgu a hyfforddi |
| | | 2.5 | Amlinellu cyfrifoldebau'r athro cymorth/hyfforddwr dros sicrhau bod yr amgylchedd addysgu a hyfforddi yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr addas ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol |
| 3 | Gallu ymateb i sefyllfaoedd diogelwch sy'n codi mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion | 3.1 | Disgrifio'r sefyllfaoedd lle gall anaf ddigwydd (mewn gweithgaredd penodol) a sut y gellir osgoi'r rhain |
| | | 3.2 | Egluro'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag anafiadau, digwyddiadau a sefyllfaoedd o argyfwng |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Egwyddorion cynhwysiant mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion |
| Rhif yr Uned: | M/502/8539 |
| Lefel: | 2 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 17 |
| Credydau: | 2 |
| **Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr ynghylch egwyddorion cynhwysiant mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion | |

| **Deilliant Dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu**<br>**Gall y dysgwr:** | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall sut i ddiwallu ystod o anghenion dysgwyr drwy gynhwysiant | 1.1 | Nodi anghenion addysg gorfforol sy'n gyffredin i ddisgyblion/dysgwyr |
| | | 1.2 | Nodi amrywiaeth o anghenion disgybl/dysgwr amrywiol |
| | | 1.3 | Cymhwyso egwyddorion cynhwysiant i ddiwallu ystod o anghenion y dysgwr |
| | | 1.4 | Dangos sut mae cynhwysiant mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn un agwedd ar gynhwysiant mewn cymdeithas |
| 2 | Dangos sut mae cynhwysiant mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yn un agwedd ar gynhwysiant mewn cymdeithas | 2.1 | Nodi safbwyntiau ystrydebol pobl ifanc mewn addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion |
| | | 2.2 | Dangos sut y gellid mynd i'r afael â safbwyntiau ystrydebol wrth ymgymryd â rôl gefnogol |
| | | 2.3 | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng canolbwyntio ar allu yn hytrach nag anabledd dysgwyr |
| | | 2.4 | Dangos y cysyniad o ddisgwyliadau uchel |
| 3 | Gwybod beth yw'r rhwystrau rhag dysgu a chyfranogi ar gyfer pob dysgwr | 3.1 | Nodi'r rhwystrau i ddysgu a chyfranogi |
| | | 3.2 | Dangos y rhwystrau allweddol gan gyfeirio'n benodol at addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion |
| | | 3.3 | Disgrifio sut i gefnogi ystod o alluoedd i alluogi pobl ifanc i ddysgu a chymryd rhan yn effeithiol |


Focus Awards, Silicon House, Farfield Park, Manvers,
Rotherham, S63 5DB

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Egwyddorion Datblygiad Plant drwy symud | | |
| Rhif yr Uned: | T/502/8462 | | |
| Lefel: | 2 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 18 | | |
| Credydau: | 2 | | |
| **Manylion yr uned:** Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr ynghylch egwyddorion datblygiad plant drwy symud | | | |
| **Deilliant Dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | | **Maen Prawf Asesu**<br>**Gall y dysgwr:** | |
| 1 | Deall camau cynyddol datblygiad plant a sut mae hynny'n berthnasol i anghenion symud dysgwyr | 1.1 | Nodi camau cynyddol datblygiad plant |
| | | 1.2 | Disgrifio nodweddion sylfaenol symud sy'n benodol i Gyfnodau Allweddol 1-4 |
| | | 1.3 | Disgrifio amrywiaeth o weithgareddau priodol i allu datblygu symud drwy Gyfnodau Allweddol 1-4 |
| | | 1.4 | Dangos sut i ddadansoddi priodoldeb gweithgareddau symud ar gyfer ystod o ddysgwyr |
| 2 | Deall nodweddion allweddol nam echddygol | 2.1 | Esbonio’r gwahaniaeth rhwng gwahanol gategorïau namau echddygol |
| | | 2.2 | Disgrifio amrywiaeth o nam(au) echddygol dysgwyr |
| | | 2.3 | Datblygu gweithgareddau symud priodol i ddiwallu anghenion dysgwr sydd â nam echddygol |



Focus Awards, Silicon House, Farfield Park, Manvers,
Rotherham, S63 5DB

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Hyrwyddo Iechyd a Lles Gydol Oes | | |
| Rhif yr Uned: | J/502/8479 | | |
| Lefel: | 2 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 20 | | |
| Credydau: | 2 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr ynghylch hyrwyddo iechyd a lles gydol oes | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall Polisi Cenedlaethol sy'n ymwneud â hyrwyddo iechyd a lles gydol oes | 1.1 | Disgrifio nodweddion allweddol gofynion cyfreithiol, polisi cenedlaethol a chanllawiau sy'n ymwneud â hyrwyddo iechyd a lles gydol oes ar gyfer plant a phobl ifanc |
| | | 1.2 | Dangos yr effaith y gall digwyddiadau a adroddir gan y cyfryngau ei chael ar Bolisi Cenedlaethol |
| 2 | Deall egwyddorion rheoli ymddygiad a sut mae'n effeithio ar hyrwyddo lles | 2.1 | Nodi egwyddorion rheoli ymddygiad cadarnhaol i hyrwyddo lles |
| | | 2.2 | Cymhwyso dulliau priodol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol |
| | | 2.3 | Disgrifio amrywiaeth o ddulliau i ymdrin ag ymddygiad heriol |
| | | 2.4 | Dangos ymddygiad cadarnhaol wrth gefnogi gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion |
| 3 | Gwybod sut i hyrwyddo iechyd a lles gydol oes drwy Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion | 3.1 | Disgrifio manteision allweddol cynnal ffordd iach o fyw |
| | | 3.2 | Dangos dulliau o hybu iechyd a lles gydol oes mewn ysgolion |
| | | 3.3 | Disgrifio sut i gefnogi ystod o alluoedd i alluogi pobl ifanc i ddysgu a chymryd rhan yn effeithiol |

# Gofynion o ran Staff

## Gofynion ar gyfer Tiwtoriaid/Hyfforddwyr

Bydd gofyn i diwtoriaid sy'n darparu'r cymhwyster feddu ar gymhwyster addysgu neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster o'r fath. Gall hyn gynnwys cymwysterau megis Lefelau 3, 4 neu 5 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu Dystysgrif mewn Addysg. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau addysgu eraill o'u cyflwyno. Rhaid i diwtoriaid allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector hefyd.

## Gofynion ar gyfer Aseswyr

Bydd yn ofynnol i aseswyr feddu ar gymhwyster asesu perthnasol neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster o'r fath. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau megis:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol

Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau asesu perthnasol eraill o'u cyflwyno. Bydd yn ofynnol i aseswyr sydd ond yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion a Phrosesau Asesu gwblhau rhaglen astudio ychwanegol er mwyn cyflawni'r unedau cymhwysedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer un o'r cymwysterau a restrir uchod.

Bydd yn ofynnol i  benderfyniadau gan aseswyr dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster asesu gael eu cydlofnodi gan asesydd sydd â chymwysterau addas.

Rhaid i aseswyr allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector hefyd.

## Gofynion ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Mewnol (IQA)

Dylai Sicrhawyr Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhawyr Ansawdd Mewnol neu fod yn gweithio tuag at y cymhwyster hwnnw. Gall hyn gynnwys cymwysterau megis V1 (D34 gynt), neu Ddyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau perthnasol eraill Sicrhawyr Ansawdd Mewnol o'u cyflwyno. Bydd yn ofynnol i benderfyniadau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster Sicrhawyr Ansawdd Mewnol gael eu cydlofnodi gan Sicrhawr sydd â chymwysterau addas. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol allu dangos cymhwysedd galwedigaethol.

# Geirfa ddefnyddiol o'r termau a ddefnyddir yn y fanyleb hon

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys Manyleb Cymwysterau Focus Awards yn cael eu cymhwyso. Nid yw pob term yn cael ei ddefnyddio yn y cymhwyster penodol hwn o reidrwydd.

| | |
|---|---|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau er mwyn gwella eglurder neu ddangos dealltwriaeth yn well. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth a data sydd eisoes yn bodoli i ragfynegi deilliannau neu ganlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r 'norm' disgwyliedig. |
| Amcangyfrif | Defnyddio gwybodaeth, profiad a gwybodaeth berthnasol arall sydd eisoes yn bodoli i nodi barn fras neu 'amcan gorau'. |
| Arddangos | Disgrifio neu esbonio gwybodaeth neu ddealltwriaeth drwy ddarparu enghreifftiau neu ddarluniau. |
| Barnu | Llunio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a threfnu gwybodaeth mewn trefn resymegol (e.e., yn nhrefn yr wyddor, yn rhifiadol, yn gronolegol ac ati). |
| Crynhoi | Cyfleu'r prif syniadau neu ffeithiau yn gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol dros weithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Ymgymryd â thasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau yn fanwl i nodi gwahaniaethau a thebygrwydd. |
| Cymharu'n feirniadol | Yn debyg i 'cymharu' uchod, ond gan ystyried unrhyw agweddau cadarnhaol a/neu gyfyngiadau sy'n deillio o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd a nodir. |
| Cymhwyso | Esbonio sut y gellir defnyddio gwybodaeth bresennol mewn sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Llunio a chofnodi (rhestru) dilyniant gwybodaeth rhesymegol a threfnus, yr adnoddau a'r camau/digwyddiadau sydd eu hangen i alluogi cysyniad neu syniad i gael ei grisialu a'i gyfathrebu. |
| Dadansoddi | Torri'r pwnc yn rhannau unigol. Archwilio pob un, dangos sut maen nhw'n cyd-fynd, p'un a ydynt yn cefnogi ei gilydd a pham maen nhw'n bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gryfhau eich dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |

| | |
|---|---|
| Darparu | Nodi a chyflwyno gwybodaeth manwl a chywir sy'n gysylltiedig â'r pwnc. |
| Datblygu... | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu rhagor o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau'n glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| Dehongli | Egluro ystyr rhywbeth. |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol neu ddeilliant/canlyniad gofynnol. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl yn rhesymegol. |
| Dod i gasgliadau... | Dod i benderfyniad yn seiliedig ar reswm neu resymeg. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth a gyflwynir yn glir ac yn gryno. |
| Esbonio | Cyflwyno gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau sy'n dangos sut neu pam y mae'n cael ei chynnwys. Dylech gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn pan fo hynny'n bosibl. |
| Gwahaniaethu | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dwy/dau neu fwy o ddadleuon, sefyllfaoedd neu bynciau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu debygrwydd a gwahaniaethau. Asesu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o wahanol bersbectifau a dod i gasgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r gwerthusiad. |
| Gwneud diagnosis | Coladu ac ystyried tystiolaeth briodol i nodi achos neu darddiad sefyllfa neu broblem. |
| Myfyrio | Ystyried gweithredoedd, profiadau neu ddysgu a sut y gall y rhain effeithio ar ymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Neilltuoli | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dwy/dau neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. Efallai y bydd angen disgrifiad neu esboniad ychwanegol i gynorthwyo eglurder ac i briodoli hygrededd. |
| Trafod | Creu cyfrif manwl o ystod o safbwyntiau, barnau neu bersbectifau. |
| Ystyried | Meddwl yn feirniadol am sefyllfa, problem, gweithred neu benderfyniad a gyflwynir, a'i esbonio. Hefyd, gweler 'esbonio' uchod. |

# Adborth yr Asesydd

| | |
|---|---|
| Enw'r Myfyriwr: | |
| Rhif Myfyriwr: | |
| Cwrs: | |
| Uned(au): | |
| Meini prawf: | |
| Dyddiad: | |
| Sylwadau: | |
| | |
| Penderfyniad: | |
| Camau pellach: | |
| Asesydd: | |
| Swydd: | |



Focus Awards, Silicon House, Farfield Park, Manvers,
Rotherham, S63 5DB

# Adroddiad y Sicrhawr Ansawdd Mewnol

| Adroddiad y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | | |
|---|---|---|---|
| Cymhwyster: | | | |
| Asesydd: | | Sicrhawr Ansawdd Mewnol: | |
| Enw'r Ymgeisydd | Uned(au) a Samplwyd | Dulliau Asesu | Sylwadau |
| | | | |

| | |
|---|---|
| Llofnod y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | |
| Llofnod yr Asesydd | |



Focus Awards, Silicon House, Farfield Park, Manvers, Rotherham, S63 5DB